
Trosolwg

Mae'r safon hon yn cwmpasu gwneud trefniadau i unigolion drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys pob sefyllfa lle mae unigolyn yn cael ei gyfeirio i mewn neu allan o asiantaeth neu wasanaeth. Gall gynnwys atgyfeirio unigolion o fewn asiantaeth (megis at weithiwr arbenigol).

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod yr ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- P1. cadarnhau gydag unigolion a phobl berthnasol eraill y rhesymau dros y trosglwyddiad, a beth sy'n debygol o ddigwydd a phryd
- P2. esbonio'n glir i unigolion, a phobl berthnasol eraill, eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y trosglwyddiad, ac unrhyw amodau statudol neu asiantaeth sydd ynghlwm wrtho
- P3. annog unigolion, a phobl berthnasol eraill, i geisio gwybodaeth a mynegi eu barn
- P4. nodi'r gefnogaeth a'r cymorth y bydd eu hangen ar unigolion i'w helpu i wneud y trosglwyddiad
- P5. darparu gwybodaeth glir a chywir am y cymorth a ddarperir a sut y dylai pobl geisio cymorth pellach os oes ei angen arnynt
- P6. cydnabod unrhyw anghytundebau sy'n codi a chyd-drafod, gyda'r rhai sy'n cymryd rhan, gonsensws gweithio ar y ffordd ymlaen
- P7. gofyn am gyngor a chefnogaeth ar unwaith trwy drafodaeth a/neu oruchwyliaeth tîm fel y bo'n briodol
- P8. casglu'r wybodaeth angenrheidiol am ofynion trosglwyddo gan y bobl briodol
- P9. gwneud trefniadau a pharatoadau ar gyfer trosglwyddo unigolion sy'n gyson â'r gofynion
- P10. darparu gwybodaeth glir a chywir i bawb y mae angen iddynt wybod am y trefniadau trosglwyddo yn unol â pholisïau cyfrinachedd
- P11. gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i fonitro ac adolygu addasiad yr unigolyn i newid
- P12. cadarnhau dealltwriaeth unigolion a phobl eraill o'r trefniadau trosglwyddo a'r rhesymau drostynt
- P13. darparu'r wybodaeth, y cymorth ymarferol a'r gefnogaeth y cytunwyd arnynt i ddiwallu anghenion unigolion a phobl eraill, o fewn yr adnoddau sydd ar gael

P14. goruchwyllo unigolion yn ystod trosglwyddo yn unol â pholisïau asiantaeth a chanllawiau ymarfer

P15. cwblhau cofnodion yn gywir ac yn glir a'u storio yn ôl asiantaeth

P16. cyfleu gwybodaeth i bobl sydd wedi'u hawdurdodi i'w chael, gan gynnwys trosglwyddo cofnodion unigolion yn unol â pholisïau cyfrinachedd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1. gofynion cyfreithiol a sefydliadol a gofynion a pholisïau sy'n berthnasol i'r swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni
- K2. y ddeddfwriaeth benodol (genedlaethol ac Ewropeaidd) sy'n ymwneud â'r gwaith rydych chi'n ei wneud a sut i ystyried hyn yn eich gwaith
- K3. unrhyw ffactorau penodol sy'n ymwneud â pholisïau ac arferion yr asiantaeth sy'n effeithio ar y gwaith a wneir
- K4. sut i werthuso eich cymhwysedd eich hun pan fyddwch yn y gwaith a phenderfynu pryd mae angen cymorth ac arbenigedd pellach
- K5. y ffyrdd y mae angen newid cyfathrebu wrth weithio gyda gwahanol unigolion a chynrychiolwyr gwahanol asiantaethau
- K6. y protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn asiantaethau a rhyngddynt er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth i'r unigolyn
- K7. yr ystod o wahanol safbwyntiau, teimladau a phryderon y gall unigolion a phobl eraill eu cael am drosglwyddo'r unigolyn
- K8. y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn ymateb i newid
- K9. ffyrdd o ddarparu arweiniad a chefnogaeth i unigolion, gan gynnwys sefyllfaoedd pan fyddant yn ofidus, yn bryderus neu'n ddig
- K10. sut i ddelio ag ymddygiad a sefyllfaoedd camdriniol, ymosodol a gwahaniaethol
- K11. y ffyrdd y mae diwylliant a rhywedd unigolyn yn dylanwadu ar eich ymarfer
- K12. sut i gymhwyso egwyddorion ymarfer cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-wahaniaethol i'ch gwaith
- K13. hawliau unigolion yr ydych yn dod i gysylltiad â nhw

Cysylltiadau Allanol

Mae'r safon hon yn cysylltu â'r dimensiwn canlynol o fewn Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau y GIG (Hydref 2004):

Dimensiwn: HWB4 Galluogi i fynd i'r afael ag angen iechyd a lles

Datblygwyd gan	Skills for Justice
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	01 Meh 2010
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Meh 2012
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	SFHAG3
Galwedigaethau perthnasol	Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol, Swyddog Tîm Troseddwr Ifanc, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithiwr Tîm Troseddwr Ifanc, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â Iechyd, Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig, Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
Cyfres/Set	Cyfiawnder Ieuencid, Cyffuriau ac Alcohol
Geiriau Allweddol	Cyffuriau, Alcohol, Sylweddau, Camddefnyddio, Cam-drin, Comisiynu, Cefnogi; paratoi; goruchwylio; pontio